

Stone Stories – Stori Len Lewis

Fy enw i yw Len Lewis, dechreuais i yng Ngwaith Glo Penalltau yn 1940 a gorffennais ym mis Gorffennaf 1986. Ar fy niwrnod cyntaf yn y gwaith glo doeddwn i ddim yn gweithio dan ddaear, roeddwn i ar yr wyneb yn rhyddhau tramiau gwag yn ôl lawr i'r pwll er mwyn i'r glowyr eu llenwi eto a dod â nhw lan. Yn dilyn hyn cefais swydd prentis yn y siop osod. Bues i am gyfnod wedyn yn gyrru'r craen uwchben yn y siopau ac wedi hynny, pob peiriant oedd ar gael.

Doeddwn i ddim lawr y pwll yn gyson, ond roeddwn i'n mynd lawr i'r pwll yn weddol aml, pan fyddai problemau. Roedd rhaid i mi fynd i lawr ar ben cerbyd nifer o weithiau, er mwyn cynnal a chadw'r prif bympiau oedd yn pwmpio dŵr o'r pwll lan at y gronfa ddŵr ar ben y pwll.

Roedden nhw'n cau pyllau glo ym mhobman, ac felly un bore, des i i'r gwaith ac anfonodd y rheolwr amdanaf a dwedodd "hoffet ti orffen?" a dwedais i "Wel, dw i ddim yn gwybod, byddai rhaid i mi drafod y peth gyda fy ngwraig" Digwyddodd mor sydyn a dweud y gwir, ac o'r funud honno dychwelais ddwywaith i Waith Glo Penalltau, unwaith fel Cynghorydd, a'r tro arall ar y diwrnod caewyd y pwll. Gwnaethon nhw ein gwahodd i gyd yn ôl, os 'ych chi'n gweithio rhywle am 46 mlynedd, chi'n siŵr o weld ei eisiau. Am gyfnod doeddwn i ddim yn gwybod ble i fynd oherwydd roeddwn i'n weithiwr cyffredin, ond gwnaeth bod yn Gynghorydd godi'r straen oddi ar fod yn, wel, heb ddimai goch. Diwrnod trist i bawb.

Roedd Gwaith Glo Penalltau yn waith glo bendigedig. Roedd yr ysbryd yng Ngwaith Glo Penalltau yn eithriadol. Roedd pawb yn cefnogi'i gilydd. Unrhyw un mewn trybini, bydden nhw'n helpu. Roedd pawb, o bryd i'w gilydd, yn cael cyfnodau pryd nad oeddent yn hoffi'r hyn roedden nhw'n gorfod ei wneud, ond rhaid mi ddweud hyn: o fy mhrofiad i ar lefel y gwaith glo, roedd y dyn cyffredin yn hapus gyda'r hyn roedd e yn ei wneud ac yn edrych ymlaen at fynd i'r gwaith. Fedrwch chi ddim curo hynny allwch chi, ble bynnag ewch chi.